# Swyddog Myfyrwyr Hŷn

**Y Rôl:**

Rôl y Swyddog Myfyrwyr Hŷn yw cynrychioli myfyrwyr hŷn ac ymgyrchu ar unrhyw faterion perthnasol. Mae'n swydd wirfoddol a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ynghyd â'i astudiaethau. Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth i bob swyddog etholedig i'w galluogi i gyflawni'r rôl, felly nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol!

Bydd y Swyddog Myfyrwyr Hŷn yn:

- Cynrychioli eu cawcws myfyrwyr (Myfyrwyr Hŷn)
- Hyrwyddo buddiannau'r cawcws hwnnw
- Gwneud eu hunain yn hysbys fel cynrychiolydd y cawcws hwnnw

Nod Ymgyrch y Myfyrwyr Hŷn yw rhoi grym i fyfyrwyr hŷn, ac mae'n bodoli i amddiffyn eu hawliau ac i ddiddymu unrhyw rwystrau neu stigma maent yn eu hwynebu. Mae Ymgyrch y Myfyrwyr Hŷn hefyd yn fan cymdeithasol ac yn fan ar gyfer prosiectau creadigol a digwyddiadau dan arweiniad myfyrwyr.

**Sgiliau y byddwch yn eu datblygu:**

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Lobïo
- Gwaith tîm
- Profiad o gynllunio prosiectau
- Cadeirio cyfarfodydd
- Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd

**Cyfleoedd a Manteision:**

- Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i Brofiad Myfyrwyr
- Cefnogaeth a mentora gan staff yr Undeb
- Byddwch yn derbyn hyfforddiant mewnol gan yr Undeb
- Cyfle i gyfranogi mwy yn yr Undeb

**Cymhwyster:**

Os ydych chi'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, rydych yn gymwys i ymgeisio yn Etholiadau Undeb y Myfyrwyr Mae hyn yn cynnwys israddedigion, yn ogystal â myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr hŷn, myfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr yr UE a rhyngwladol.

- **Enwebwch eich hun:** cardiffstudents.com/elections
- Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk neu ffoniwch 02920 781 435